# Ysgol Uwchradd Aberteifi

EGNI A LWYDD

# Athro/Athrawes i hyfforddi drwy'r Brifysgol Agored




## Athro/Athrawes i hyfforddi drwy'r Brifysgol Agored

Hysbyseb

Mae'r ysgol yn cynnig cyfle arbennig i unigolyn trwy raglen bartneriaeth TAR (2 flynedd) a ariennir yn llawn gan Lywodraeth Cymru drwy darpariaeth y Brifysgol Agored. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn addysgu un o'r pynciau sy'n rhan o'r prosiect trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ysgol wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi ymgyrch Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

Pynciau sydd yn rhan o'r prosiect yw: Gwyddoniaeth,  a Chyfrifiadura / TGCH

Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at raddedigion sydd unai'n gweithio ar hyn o bryd ac eisiau newid gyrfa, neu sydd â phrofiad yn y gorffennol o weithio mewn amgylchedd gyda phlant a phobl ifanc. Gall hyn gynnwys cynorthwywyr addysgu a hyfforddwyr dysgu sy'n dymuno symud ymlaen yn eu gyrfa yn ogystal â swyddogion ieuenctid. Croesewir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd yn eu blwyddyn olaf yn y brifysgol hefyd.

Mwy o wybodaeth?

Am fwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â Phennaeth Ysgol Uwchradd Aberteifi, Mr Trystan Phillips, ar phillipst257@hwbcymru.net neu ar 01239 612670.

Datganiad Diogelu

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae rhai rolau o fewn ein sefydliad yn gofyn am wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i asesu addasrwydd ymgeiswyr. Bydd y rôl hon yn gofyn am wiriad DBS Uwch. Sylwch na fydd presenoldeb euogfarnau blaenorol o reidrwydd yn anghymhwyso ymgeisydd rhag ystyriaeth ar gyfer y swydd hon. Rydym yn asesu pob ymgeisydd fesul achos, ac yn ystyried natur a pherthnasedd unrhyw euogfarnau mewn perthynas â chyfrifoldebau'r rôl. Ein nod yw creu amgylchedd gwaith cynhwysol a chefnogol lle caiff pob unigolyn ei drin yn deg a chyda pharch. Os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau am y broses hon, mae croeso i chi gysylltu â ni am eglurhad. Mae eich preifatrwydd a'ch urddas yn hollbwysig i ni drwy gydol y broses recriwtio.

## Proses Ymgeisio

- Dyddiad cau - Dydd Llun, Mehefin 29ain, 2026
- Dyddiad cyfweliad - Dydd Gwener, Gorffennaf 10fed, 2026
- Dyddiad dechrau'r swydd - Medi 1af, 2026

# Swydd Disgrifiad

## Disgrifiad o'r rhaglen

Gofynion mynediad ar gyfer llwybr TAR i addysgu a ariennir yn llawn gan y Brifysgol Agored

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddal y canlynol, o leiaf:

- Safon sy'n cyfateb i TGAU Gradd C neu uwch mewn Mathemateg neu Fathemateg-Rhifedd
- Safon sy'n cyfateb i TGAU Gradd C neu uwch mewn naill ai Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith Gyntaf
- Gradd anrhydedd lawn yn y DU (neu gyfwerth). Rhaid i chi feddu ar radd sydd ag o leiaf 50% o berthnasedd i'r pwnc os ydych am addysgu i ddod yn athro ysgol uwchradd (dysgwyr 12-16 oed). I'r ymgeiswyr hynny sy'n gwneud cais pwnc Cymraeg, nid oes rhaid i'ch gradd fod yn y maes hwn o reidrwydd os gallwch ddangos eich bod yn defnyddio'r iaith yn rhugl, oherwydd efallai y bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi yn dibynnu ar ddyfnder eich gwybodaeth.
- Mae angen i ymgeiswyr fod ar gael i ymrwymo i gontract amser llawn (nid yn ystod y tymor yn unig) tan ddiwedd y rhaglen ym mis Gorffennaf 2027 a bydd yn ofynnol iddynt fod wedi'u lleoli yn yr ysgol o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Am unrhyw gwestiynau neu wybodaeth bellach am y rhaglen e-bostiwch Tîm TAR Cymru ar TAR-Cymru@open.ac.uk neu ewch i TAR https://www.open.ac.uk/courses/choose/cymru/tar/

- Mae'r llwybr TAR yn rhaglen 2 flynedd.
- Mae'r swydd hon yn amodol ar wiriad DBS manylach.

# Manyleb Person

## Sgiliau a chymwysterau

- Cymhwyster / Gradd berthnasol
- Y gallu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol.

## Nodweddion Personol

- Argyhoeddiad y gall pob person ifanc fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac effeithiol, yn enwedig pan fyddant yn ffurfio perthynas gadarnhaol ag oedolion
- Gallu ar gyfer gwaith caled a gwydnwch
- Sgiliau trefnu rhagorol, gan gynnwys sgiliau rheoli amser a chwrdd â therfynau amser
- Awydd gwirioneddol i fod bob amser yn well fel ymarferwr, gan gynnwys ymateb yn gadarnhaol i adborth a chymryd rhan lawn mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol
- Lefel uchel o broffesiynoldeb fel rhan o fod yn fodel rôl cadarnhaol i bobl ifanc
- Mwynhad o fod yn rhan o ethos tîm a dysgu ohono